



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

Adolygiad o eithriadau terfyn cyflymder diofyn o 20mya: cylch gorchwyl

Cylch gorchwyl y grŵp sy'n edrych ar eithriadau terfyn
cyflymder diofyn o 20mya.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Chwefror 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 20 Chwefror 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-eithriadau-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-cylch-gorchwyl-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Aelodau

Mae'r tîm adolygu yn cynnwys:

- Phil Jones, Cadeirydd y Grŵp Tasglu 20mya
- Peter Jones, Athro Trafnidiaeth a Datblygu Cynaliadwy yng Ngholeg Prifysgol Llundain, sydd heb fod yn rhan o'r gwaith o weithredu'r terfyn cyflymder 20mya a bydd yn darparu persbectif annibynnol.
- Kaarina Ruta, Cynghorydd Trafnidiaeth yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bydd y tîm yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion awdurdodau lleol, ac arbenigwyr a phartneriaid eraill.

Diben

Bydd yr adolygiad yn archwilio sut y caiff y canllawiau a roddir i awdurdodau priffyrdd eu cymhwyso wrth osod eithriadau i'r terfyn 20mya diofyn.

Cylch gwaith

Mae adborth gan yr awdurdodau priffyrdd wedi helpu'r tîm adolygu i gael dealltwriaeth o sut y mae'r canllawiau yn cael eu cymhwyso mewn gwahanol rannau o Gymru; adlewyrchu ar y cymhwysiad hwnnw ac ystyried a oes angen eglurhad ac addasiadau i'r canllawiau i annog mwy o gysondeb ledled Cymru yn y dull a gymerir at ffyrdd sy'n ymddangos ar y trothwy rhwng 20mya a 30mya.

Bydd y tîm adolygu yn ystyried yr adborth ochr yn ochr â thystiolaeth arall i baratoi casgliadau drafft ac argymhellion cychwynnol i'w hystyried gan y grŵp adolygu ac yna eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cyhoeddi ym mis Chwefror

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-eithriadau-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-cylch-gorchwyl-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

2024. Wedyn bydd y tîm adolygu yn gweithio ag aelodau cabinet awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, yn ogystal â chynrychiolwyr diwydiannau y mae'r newid i'r terfyn cyflymder yn effeithio arnynt, gan gynnwys gweithredwyr bysiau a thimau cynllunio gwasanaethau bysiau rhanbarthol. Bydd y tîm, ynghyd â Llywodraeth Cymru, yn cynnig cymorth i awdurdodau lleol lle maent yn awyddus i ystyried newidiadau i ffyrdd yn gyflym, pan fydd y penderfyniad rhwng terfyn cyflymder o 20mya a 30mya yn llai clir.

Bydd y tîm adolygu'n paratoi adroddiad terfynol, ynghyd â chanllawiau drafft wedi'u diweddarau, ar osod y terfynau cyflymder mewn aneddiadau yr effeithir arnynt gan y terfyn cyflymder 20mya diodyn ynghyd ag eithriadau, gan adeiladu ar y profiad o weithredu'r terfyn cyflymder hyd yma a gwneud argymhellion ar sut y gellid cymhwyso hyn i gymunedau ar ffyrdd lle mae cyfyngiadau cyflymder uwch ar hyn o bryd. Gallai diweddariadau i'r canllawiau gynnwys, er enghraifft, ystyried yr effaith ar lwybrau bysiau a chymunedau lleol.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-eithriadau-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-cylch-gorchwyl-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).